Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO (ARBENNIG) | GOVERNANCE AND AUDIT COMMITTEE (EXTRAORDINARY) |
| DYDD MERCHER, 20 HYDREF 2021 am 2:00 y. p. | WEDNESDAY, 20 OCTOBER, 2021 at 2:00 p.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees, Alun Roberts, Margaret M. Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Gwilym O. Jones, Richard Griffiths

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Jeff Evans, Peter Rogers *(Cadeirydd/Chair)*

**AELOD LLEYG / LAY MEMBER**

Dilwyn Evans *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)*

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod*

**R H A G L E N**

**1** **<u>DATGANIAD O DDIDDORDEB</u>**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **<u>DATGANIAD O'R CYFRIFON 2020/21 AC ADRODDIAD ISA 260</u>** (Tudalennau 1 - 32)

- Cyflwyno'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2020/21.
- Cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2020/21.
- Cyflwyno adroddiad Archwilio Allanol ynglyn â'r datganiadau ariannol 2020/21 (Adroddiad ISA 260).

*(Mae'r Datganiad o'r cyfrifon a'r Adroddiad ISA 260 i ddilyn)*

.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 20 Hydref 2021 |
| **Pwnc / Testun:** | Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn AD a Trawsnewid<br>01248 752502<br>CarysEdwards@ynysmon.gov.uk |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Gethin Morgan<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad<br>01248 752511<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd:**<br>Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) yw rhoi sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu'r Cyngor.<br><br>Cyfrifoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cymeradwyo AGS y Cyngor bob blwyddyn. | |

## Cyflwyniad

1. Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.

2. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

3. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

## Argymhelliad

4. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a fydd yn rhan o Ddatganiad Cyfrifon 2020/21




# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020/21

Tudalen 2

## Cynnwys


Rhagarweiniad ... 3
Sgôp y Cyfrifoldeb ... 5
Y Fframwaith Llywodraethu ... 5
Ffiniau Etholiadol ... 6
Strwythur Rheolaeth Wleidyddol ... 7
Adolygu Effeithiolrwydd ... 8
Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor ... 9
Ymateb y Cyngor i'r Pandemig Coronafeirws (Covid-19) ... 10
Materion Llywodraethu Sylweddol ... 12
Materion Llywodraethiant a nodwyd ... 13
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2019/20 ... 13
Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2020/21 ... 14
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ... 16
Atodiad 1 ... 17
Egwyddor A: Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol ... 17
Egwyddor B: Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid ... 19
Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ... 22
Egwyddor D: Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu ... 24
Egwyddor E: Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo ... 27
Egwyddor F: Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref ... 28
Egwyddor G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio ... 30

## Rhagarweiniad

Er mwyn arddangos Llywodraethu da, rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (ac ategol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government' (CIPFA / Solace, 2016). Mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion hynny.

Mae agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi cael eu cryfhau a'u moderneiddio yn ystod y blynyddoedd diweddar ar draws nifer o themâu llywodraethu. Mae Cynllun y Cyngor wedi bod yn ei le ers 2017 ac mae'n rhoddi pwyslais ar ein trefniadau llywodraethu fel modd o gyflawni allbynnau'r cynllun.

At hyn, dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, datblygwyd chwech o themâu allweddol gan staff a rheolwyr i gefnogi ein nodau a'n hamcanion –

1. **Proffesiynol a Threfnus**
Rydym yn ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phroffesiynol a fydd yn darparu arweiniad effeithiol a chryf ac yn sefydlu'r ymddygiadau proffesiynol a sefydliadol sy'n angenrheidiol i sicrhau gwelliant.

2. **Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig**
Byddwn yn sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin syniadau a datrysiadau arloesol a chreadigol sy'n edrych y tu draw i'r sefydliad er mwyn ceisio datrysiadau uchelgeisiol a fydd yn fanteisiol i'n cwsmeriaid, ein dinasyddion a'n cymunedau.

3. **Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned**
Byddwn yn ymgysylltu'n egnïol gyda chymunedau, dinasyddion a chwsmeriaid, yn mofyn eu barn, yn deall eu hanghenion ac yn ymateb iddynt gan egluro'n llawn a chyfathrebu ein gweithredoedd.


4. **Gwerthfawrogi a Datblygu'n Pobl**
Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein pobl er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymhelliant a'u bod bob amser yn broffesiynol yn y modd y maent yn gweithio. Byddwn yn cydnabod llwyddiant, arloesedd ac ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth cwsmer rhagorol.

5. **Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth**
Rydym yn deall na fedrwn gyflawni'r trawsnewidiad angenrheidiol ar ein pennau ein hunain ac rydym yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat er mwyn sicrhau twf a datblygiad cynaliadwy.

6. **Cyflawni**
Rydym yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac allbynnau ac yn ymdrechu i wella ein perfformiad yn y meysydd pwysig o'n gwaith.

Gellir alinio'r rhain â'r saith egwyddor graidd yn fframwaith CIPFA/SOLACE. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn 'Delivering Good Governance in Local Government: Guidance Notes for Welsh Authorities (2016 edition)' sydd wedi'i addasu at ddibenion llywodraeth leol.

Mae'r Cyngor yn anelu at gyflawni safonau llywodraethu da drwy lynu wrth y saith egwyddor graidd uchod a hefyd wrth yr egwyddorion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Sylfaen Cod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor.




*Ffynhonnell: Delivering Good Governance in Local Government Guidance Notes for Welsh Authorities (2016 Edition)*

Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, rydym wedi ceisio dangos sut mae'r holl themâu ac egwyddorion allweddol uchod wedi bod yn ganolog i'n holl ymdrechion yn ystod 2020/21.

Mae delio gyda'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor – nid yn unig cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol a chynnal busnes arferol lle bo'n bosib, ond hefyd wrth sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i warchod staff yr awdurdod wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'n trigolion.

Roedd yr ymateb cyflym hwn yn ystod y bedwaredd wythnos o Fawrth, yn cynnwys ffyrdd newydd o weithio wrth ddelio â dyfodol ansicr iawn a wireddwyd trwy'r fframwaith llywodraethu argyfwng a sefydlwyd ac ymrwymiad a diwydrwydd y gweithlu a'i bartneriaid.

Arweiniwyd hyn gan ein Uwch Arweinwyr trwy sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng a rhai pwerau dirprwyedig a ddirprwywyd i'r Swyddogion perthnasol a'r aelodau etholedig.

Roedd Chwarter 4 yn gyfnod arbennig o heriol wrth i'r ynys weld ei nifer uchaf o achosion positif o Covid-19, gyda chyfanswm o 1058 o achosion yn ystod y cyfnod, a chlwstwr o achosion yn cael eu cadarnhau ar Ynys Gybi. Yn ystod rhan helaeth o'r cyfnod, Ynys Môn oedd â'r nifer uchaf o achosion fesul 100,000 o bobl yng Nghymru.

Cymerodd y Cyngor gamau cadarn ac amserol, yn cynnwys sefydlu Tîm Rheoli Achosion, cyflwyno profion cymunedol torfol, danfon dros 1800 o brofion PCR o ddrws i ddrws ac ail-bwysleisio'r rheoliadau ac ymddygiadau yn lleol.

O ganlyniad i'r ymateb ac ymyrraeth amlasiantaethol, llwyddwyd i reoli'r sefyllfa yn gyflym, gan osgoi lledaeniad cymunedol i gymunedau eraill ar Ynys Môn. Gellir gweld gwybodaeth bellach am ymateb y Cyngor i'r pandemig yma.

## Sgôp y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n

- ddarbodus,
- yn effeithlon, ac
- yn effeithiol.

Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwelliant parhaus o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo a mabwysiadu cod llywodraethu corfforaethol lleol sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'. Roedd y cod lleol i fod i gael ei adolygu yn ystod 2020/21 ond oherwydd i swyddogion gael eu hadleoli i ymateb i'r pandemig bydd y gwaith yn cael ei wneud yn 2021/22 yn awr.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cod ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Hefyd, mae'n diwallu gofynion rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd.

Dilynwch y linc isod am ragor o wybodaeth am y pwyllgorau.

## Ffiniau Etholiadol


Cynhaliwyd etholiadau Cyngor Sir Ynys Môn ddiwethaf ym mis Mai 2017. Mae 30 Aelod wedi'u hethol o 11 Ward Aml-Aelod. Gellir gweld y Wardiau hyn, ynghyd â nifer y seddi sydd ar gael, o'r map isod.

Yn ystod y flwyddyn ymddeolodd aelod etholedig a oedd wedi gwasanaethu'r Cyngor am nifer fawr o flynyddoedd ac, yn anffodus, bu fawr aelod etholedig arall. Cynhaliwyd dau isetholiad ar y 6ed o Fai i lenwi'r seddi gwag yn wardiau Seiriol a Chaergybi.



## Strwythur Rheolaeth Wleidyddol

Ceir trosolwg fras o strwythur rheolaeth wleidyddol Cyngor Sir Ynys Môn yn y diagram isod:




Diwygiwyd y fframwaith llywodraethu yn sylweddol oherwydd y pwerau brys a ddirprwywyd i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr. Roedd Rheoliadau Deddf y Coronafeirws a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaeth cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd. Yn unol â hynny, adolygodd y Cyngor ei raglen ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau. Mewn ymdrech i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei fusnes craidd, tra yn sicrhau atebolrwydd democrataidd lleol, a bod yn realistig ynglyn â'r ansicrwydd oedd yn ei wynebu, cafodd 'Strategaeth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021' ei gymeradwyo mewn egwyddor gan aelodau etholedig y Cyngor ar 12 Mai 2020.

## Adolygu Effeithiolrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGC a'r panelau sgriwtini cysylltiedig ar y gwaith gwella sy'n gysylltiedig ag Addysg a'r Gwasanaethau Plant;
- cyfres o gyfweliadau gyda swyddogion allweddol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn cynnwys:-

- gweithgarwch rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- archwilio mewnol, y mae eu gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol, gan gynnwys rheoli risg, a hynny'n unol â'r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn gweithredu'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- yr asesiad blynyddol o'r swyddogaeth Archwilio Mewnol gan archwilwyr allanol y Cyngor;
- gwaith Pwyllgorau Sgriwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Safonau a Llywodraethu ac Archwilio;
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

Cymeradwyir y polisïau allweddol, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt gan y Pwyllgor Gwaith, ac fe'u mabwysiadir yn ffurfiol gan y Cyngor Sir fel bo'r angen.

Bydd yr asesiad cyffredinol ar gyfer yr adroddiad hwn yn dilyn y raddfa hunanasesu ganlynol –

1. **Rhagorol** – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol yn y sector
2. **Da** - Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
3. **Digonol** – Cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
4. **Anfoddhaol** – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

# Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

| Egwyddorion Craidd y Fframwaith | Asesiad Cyffredinol | Casgliad yr Hunanasesiad |
|---|---|---|
| **Egwyddor A:** Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol | Da | Mae gan y Cyngor Sir brosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cryf ac sy'n gyfreithlon. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymddwyn yn onest. |
| **Egwyddor B:** Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid | Da | Mae'r Cyngor yn bodoli i wasanaethu ei drigolion ac mae'n ddibynnol ar amrywiaeth eang o randdeiliaid i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori ar waith. |
| **Egwyddor C:** Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol | Da | Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda chymunedau i gynllunio canlyniadau. Wrth bennu polisïau a strategaethau, mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ganlyniadau yn y tymor hir, gan ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy. |
| **Egwyddor D:** Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu | Da | Mae'r Cyngor Sir yn gwneud penderfyniadau ar ymyriadau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gan ymgysylltu â chymunedau, rheoleiddwyr ac arbenigedd ymarferol swyddogion gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at optimeiddio cyflawniad y deilliannau a fwriedir |
| **Egwyddor E:** Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo | Da | Mae'r Cyngor Sir â'r strwythurau a'r arweinyddiaeth briodol yn ei lle a phobl a chanddynt y sgiliau a'r cymwysterau cywir i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithlon er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir. Bod polisïau a strategaethau clir yn eu lle i brofi bod ganddo'r capasiti i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ohono ynghyd â'r capasiti gweithredol. |
| **Egwyddor F:** Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref | Da | Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso cyflawniad effeithiol ac effeithlon ei wasanaethu. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhannau hanfodol a phwysig o'r system rheoli perfformiad ac maent yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sydd yng Nghynllun y Cyngor. |
| **Egwyddor G:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio | Da | Mae Aelodau Etholedig y Cyngor a'r Uwch Reolwyr yn atebol am wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Mae gweithgareddau'n cael eu hymgymryd â nhw mewn dulliau tryloyw a chlir y gall cydranddeiliaid eu deall ac ymateb iddynt |

Gellir gweld dadansoddiad pellach yn erbyn pob egwyddor, gan gynnwys rhywfaint o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn yn Atodiad 1.

## Ymateb y Cyngor i'r Pandemig Coronafeirws (Covid-19)

Adroddwyd am yr achos Covid-19 positif cyntaf ar Ynys Môn ar y 11 Mawrth 2020. Yn dilyn cyngor Llywodraeth y DU i bawb yn y DU osgoi pob taith 'dianghenraid' a chysylltiad ag eraill, fe wnaethom sefydlu Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng (EMRT) yn fewnol ar 18 Mawrth 2020.

Yr EMRT fu'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar weithgareddau sy'n ymwneud â Coronafeirws ar Ynys Môn gan gynnwys trafod darparu gwasanaeth allweddol, gweithgareddau newydd, cynllunio'r gweithlu, cyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac iechyd a diogelwch. Mae'r EMRT yn cynnwys y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinydd y Cyngor a'r Dirprwy Arweinydd, a phersonél allweddol o safbwynt rheoli argyfwng. Roedd yr EMRT yn cyfarfod yn ddyddiol ar ddechrau'r pandemig ac ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon mae'n cyfarfod bob pythefnos gan fod nifer yr achosion Covid-19 positif wedi gostwng. Cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir, gan arddangos gallu'r Cyngor i fod yn ymatebol ac i addasu i heriau a gofynion sy'n newid.

Daw Cynllunio Argyfwng ar gyfer y pandemig coronafeirws o dan ddeddfwriaeth Argyfyngau Sifil Posib ac mae'n cael ei arwain yn genedlaethol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Ar lefel Gogledd Cymru mae hyn yn cael ei gydlynu a'i arwain gan y Fforwm Cydnerthedd Lleol (lle mae'r sector cyhoeddus yn cydweithio), drwy'r Grŵp Cydlynu Strategol argyfwng. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am wneud penderfyniadau lleol a rhoi deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol ar waith. Mae yna rôl fonitro ac adrodd hefyd, drwy'r strwythurau, er mwyn dylanwadu a llywio.

Mae'r Arweinydd wedi gweithredu ei phwerau i wneud penderfyniadau gweithredol ers dechrau'r argyfwng lle'r oedd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor methu cyfarfod. Cafodd yr Aelodau eu briffio ar y Ddeddf Coronafeirws a'i goblygiadau o ran rhwymedigaethau statudol y Cyngor. Mewn perthynas â chyfarfodydd Pwyllgor, ni fu'n bosibl cynnal busnes yn ôl yr arfer. Roedd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 yn lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â chyfarfodydd, tra'n caniatáu i Aelodau fynychu cyfarfodydd o bell ar gyfer unrhyw gyfarfodydd gofynnol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf 'o bell' y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar 20 Mai gan ddefnyddio Microsoft Teams ac mae recordiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor. Ers yr hydref, cynhaliwyd a recordiwyd cyfarfodydd gan ddefnyddio Zoom er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael. Gan fod pob cyfarfod Pwyllgor yn cael ei gynnal o bell yn awr, mae'r Cyngor wedi penderfynu ffrydio pob cyfarfod yn fyw ar ei sianel YouTube fel y gall y cyhoedd wylio'r cyfarfodydd mewn amser real gan nad ydynt yn gallu bob yn bresennol yn bersonol.

Mae delio gyda'r argyfwng Covid -19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor – nid yn unig o ran cynnal gwasanaethau allweddol rheng flaen a chynnal busnes arferol lle bo'n bosib, ond hefyd i sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn eu lle i ddiogelu staff yr awdurdod tra'n darparu gwasanaethau.

Yn lleol, rydym wedi blaenoriaethu;

- Cynnal gwasanaethau statudol rheng flaen,
- Gweithredu gwasanaethau newydd mewn ymateb uniongyrchol o'r argyfwng,
- Cynllunio ar gyfer nifer sylweddol o farwolaethau,
- Amddiffyn a diogelu gweithlu'r Cyngor,
- Sicrhau cyflenwad Offer Amddiffyn Personol (PPE) digonol a safonol,
- Amddiffyn a chefnogi plant bregus a phlant ein gweithwyr allweddol yn ein Hybiau Gofal,
- Rhoi canllawiau cenedlaethol ar waith,
- Gweithredu grantiau cenedlaethol, e.e. cymorth busnes, taliadau uniongyrchol am brydau ysgol am ddim,
- Addasu'r gweithlu mewn cyfnod byr o amser a chreu'r amodau ar gyfer gwahanol ffyrdd o weithio gan gynnwys cyflwyno Microsoft Teams a galluogi staff nad oeddent erioed wedi gweithio gartref yn y gorffennol i weithio gartref,
- Dod yn un o'r Siroedd cyntaf i beilotio'r system 'Profi ac Olrhain',
- Darparu cyfathrebiadau a rhannu gwybodaeth yn amserol ac yn rheolaidd, yn fewnol ac yn allanol, a
- Cydweithredu'n effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.
- Rhoi'r Cynllun Parhad Busnes AD, Polisi a Gweithdrefn ar gyfer Adleoli staff mewn argyfwng ar waith
- Cefnogi iechyd a lles staff drwy ddarparu cymorth ac ymyraethau ychwanegol

Rhaid hefyd pwysleisio bod gwaith dydd i ddydd wedi parhau yn ystod cyfnod yr argyfwng ar draws sawl Gwasanaeth, ond bod y dull o weithio wedi cael ei addasu er mwyn cadw'r gweithlu a thrigolion yr Ynys yn ddiogel.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymateb drwy edrych ar gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y 13eg Gorffennaf 2020 a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 23ain Ebrill 2021.

## Materion Llywodraethu Sylweddol

Daeth ein hadroddiad Archwilio Mewnol ein hunain ar gyfer 2019/20 i'r casgliad canlynol –

> ***"Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.***
>
> ***Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.***
>
> ***Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon.."***

Tudalen 13

Cwblhaodd Archwilio Mewnol waith ar yr heriau a grëwyd gan y pandemig Covid-19 yn 2020/21. Roedd y gwaith yn ceisio "nodi'r risgiau a oedd yn newid a'r effeithiau ar y cyngor ei hun ac a oedd trefniadau allweddol mewn perthynas â llywodraethu, rheoli risg a rheoli mewnol wedi dirywio neu wedi cael eu cynnal." Roedd canlyniadau'r gwaith yn gadarnhaol a daeth yr adroddiad i'r casgliad -

> **"Oherwydd maint a dyfnder yr ymatebion a dderbyniwyd gan y gwasanaethau, gall y Cyngor dderbyn sicrwydd 'llinell gyntaf' 'Rhesymol' y cafodd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth eu cynnal yn ddigonol wrth iddo ymateb i'r pandemig COVID-19."**

Trafodwyd yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol yn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 25ain Mai 2021 a gellir gweld y drafodaeth ar ein sianel YouTube.

# Materion Llywodraethiant a nodwyd

## Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2019/20

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r Materion Llywodraethiant a nodwyd yn ystod 2019/20 ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd a wnaed yn ystod 2020/21:

| Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|
| • Dechrau adfer y balansau cyffredinol drwy weithredu'r gyllideb newydd y cytunwyd arni yn dilyn y broses gosod cyllideb.<br><br>Parhau i adolygu'r trefniadau ar gyfer diweddaru, cytuno a monitro'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig | Swyddog Adran 151 | Tanwariodd y Cyngor ei gyllideb yn 2020/21 o £4.2m ac mae hyn yn cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor i £11.6m neu 8.2% o gyllideb refeniw net 2020/21 sydd 3.2% yn uwch na'r isafswm a osodwyd gan y Pwyllgor Gwaith. Wrth i'r wlad ddod allan o'r cyfnodau cloi a mynd i mewn i gyfnod adfer Cofid, efallai y bydd angen defnyddio balansau cyffredinol i ddelio â materion, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor, yn ystod 2021/22 a thu hwnt. Rhagwelir felly y bydd lefel y balansau cyffredinol yn gostwng yn y blynyddoedd i ddod, gan symud yn agosach at falans o 5% fel lleifarif. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn cael ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgor Gwaith trwy gydol 2021/22. |
| • Lleihau'r cymorthdaliadau sy'n cael eu dal yn ôl drwy gytuno ar amserlen gydag archwilwyr allanol ac uchafu materion fel y cytunwyd gan archwilwyr allanol os na lynir at yr amserlen. | Swyddog Adran 151 | Mae'r archwiliad o gymhorthdal 2017/18 wedi'i gwblhau ac mae llythyr cymhwyster drafft wedi'i gyhoeddi gan Archwiliad Cymru mewn perthynas â chymhorthdal 2018/19. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau archwiliad cymhorthdal 2019/20 gyda'r nod o gwblhau'r archwiliad erbyn Medi 2021. Bydd hyn yn caniatáu i'r archwiliad o gymhorthdal 2020/21 i ddechrau yn yr hydref gyda'r nod o gwblhau'r archwiliad erbyn y dyddiad cau rhagnodedig 30 Tachwedd 2021. Bydd hyn yn dod a'r archwiliadau hawliadau cymhorthdal y Cyngor yn gyfredol. |
| • Cytuno ar strategaeth Gofal Cwsmer Corfforaethol newydd | Bwrdd Prosiect Trawsnewid Prosesau Busnes | Wedi'i gwblhau ac yn weithredol. |

## Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2020/21

Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol yn ystod 2020/21. Fodd bynnag, nodwyd y materion Llywodraethiant a ganlyn yn yr Hunanasesiad a byddant yn cael sylw yn 2021/22.

| Materion llywodraethu wedi'u nodi | Camau a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain? | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1. Gohiriwyd rhaglenni a phrosiectau sy'n gysylltiedig â Chynllun y Cyngor oherwydd y Pandemig Covid-19 | • Sicrhau bod unrhyw raglenni a phrosiectau a gafodd eu hoedi oherwydd y pandemig yn cael eu hailsefydlu pan fydd yn ddiogel gwneud hynny a'u bod yn cael eu datblygu ar gyflymder priodol wedi hynny | Byrddau Rhaglen Corfforaethol | • Methiant prosiectau a rhaglenni<br>• Effaith ariannol<br>• Methiant llawer o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor<br>• Methu â moderneiddio<br>• Methiant posibl yn y ddarpariaeth gwasanaeth | Mawrth 2022 |
| 2. Nid oes gan y Cyngor broses o fonitro yn ffurfiol, y gweithredu a wneir ar argymhellion gan Archwilwyr Allanol | • Mae argymhellion Archwilio Allanol yn cael eu gweithredu a'u monitro gan ddefnyddio 4Action a bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiad arnynt bob blwyddyn | Trawsnewid / Adnoddau | • Nid yw argymhellion yn cael eu gweithredu a'u monitro<br>• Methiannau posibl yn y darpariaethau gwasanaeth os nad eir ar afael â hwy | Mawrth 2022 |
| 3. Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd a newid sylweddol i'r Cyngor | • Mae materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael eu gweithredu'n briodol | Swyddog Monitro | • Bydd methu â chydymffurfio yn arwain at ddirwyon posibl a cholli enw da<br>• Dychweliad posib i gael ein rhedeg gan gomisiynwyr | Dyddiadau amrywiol – gweler y Cynllun Gweithredu |
| 4. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor yn mapio ffynonellau sicrwydd | • Gweithredu'r model 'tri llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i | Trawsnewid / Adnoddau | • Materion llywodraethu posib na chawsant eu nodi<br>• Methu gwella perfformiad y | Mawrth 2022 |

| Materion llywodraethu wedi'u nodi | Camau a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau | Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol | Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain? | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| | fapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor | | Cyngor yn barhaus<br>• Methiant gwasanaeth yn bosib<br>• Darpariaeth sicrwydd annigonol neu ddyblyg | |
| 5. Mae'r Pandemig Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar adnoddau Gwasanaethau | • Monitro effeithiau'r pandemig Covid-19 ar adnoddau Gwasanaethau | UDA / Holl Wasanaethau | • Methiant posibl yn y ddarpariaeth gwasanaeth<br>• Dim cyllid digonol i redeg Gwasanaethau<br>• Dyblygu ymdrechion<br>• Dim cynllunio ar gyfer y dyfodol | Chwarterol hyd at Mawrth 2022 |


## Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi ein cynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.



**Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn**





**Llinos Medi**
**Arweinydd y Cyngor**
**Mehefin 2021**

**Annwen Morgan**
**Prif Weithredwr**
**Mehefin 2021**

# Atodiad 1

Atodiad 1

| **Egwyddor A:** Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol |
|---|

**Rhesymeg:** Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am faint y maent yn ei wario, ond hefyd am y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau sydd yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau, cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau y maent wedi'u cyflawni. Yn ogystal, mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol i wasanaethu budd y cyhoedd wrth gadw at ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol, yn gyffredinol, y gallant ddangos priodoldeb eu holl weithredoedd a bod ganddynt fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad at werthoedd moesegol ac i barchu rheolaeth y gyfraith.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Proffesiynol a Threfnus

| Is-egwyddorion | Enghreifftiau o ymrwymiad y Cyngor i gyflawni llywodraethiant da | Diweddariadau a newidiadau yn 2020/21 oherwydd Covid-19 |
|---|---|---|
| Ymddwyn yn ddidwyll<br><br>Arddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol<br><br>Parchu rheolaeth y gyfraith | • Mae nifer o godau ymddygiad a phrotocolau ar waith fel rhan o'r Cyfansoddiad i sicrhau safonau uchel o ymddygiad – maent yn cynnwys<br>  ○ Cod ymddygiad i Aelodau<br>  ○ Cod ymddygiad i swyddogion<br>  ○ Protocolau ar gyfer cysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion<br>  ○ Polisi Gwrth-fwlio ac Aflonyddu<br>  ○ Protocolau ynghylch rhoddion a lletygarwch<br>  ○ Protocolau rheolaeth wleidyddol<br>• Mae Aelodau'n derbyn hyfforddiant ar y codau ymddygiad cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gael eu hethol<br>• Mae'r Swyddog Monitro'n gweithredu fel swyddog arweiniol ar gyfer y Pwyllgor Safonau lle mae saith o'r naw aelod yn benodiadau allanol, a'r gweddill yn aelodau etholedig.<br>• Gwerthoedd y Cyngor – 6 Thema Allweddol (nodir uchod yn y cyflwyniad)<br>• Cod Ymddygiad Aelodau a Swyddogion | • Cwblhaodd y Pwyllgor Safonau ei adolygiad o Nodiadau Briffio ar Ddiddordebau Personol/Rhagfarnllyd yn y Cod Aelodau. I'w ailgyhoeddi yn gynnar yn 2021.<br>• Cynhyrchwyd canllaw ar gyfer Aelodau mewn perthynas â mynychu Cyfarfodydd Rhithwir a'r sgil effeithiau ar y trefniadau 'arferol' ar gyfer cydymffurfio â gofynion y Cod Ymddygiad o ganlyniad i weithio o bell.<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau<br>• Data Cydymffurfiaeth Derbyn Polisïau Blwyddyn 3 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Pwyllgor Safonau<br>• Rheolau Gweithdrefn Ariannol<br>• Rheolau Gweithdrefn Contract<br>• Polisi Atal Twyll a Llygredd yn y Cyfansoddiad gyda chynllluniau ategol ar waith<br>• Protocol ar roddion a lletygarwch a rhestr o fuddiannau<br>• Datgan diddordebau cyn bob cyfarfod<br>• Cynefino Staff<br>• Polisi Chwythu'r Chwiban<br>• Swyddog Monitro Dynodedig<br>• Polisi Diogelwch TGCh | |

# Atodiad 1

| **Egwyddor B:** Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Rhesymeg:** Mae llywodraeth leol yn cael ei redeg er lles y cyhoedd, felly dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir y gellir ymddiried ynddynt i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, megis dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol. | | |
| **Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned | | |
| Is-egwyddorion | Enghreifftiau o ymrwymiad y Cyngor i gyflawni llywodraethiant da | Diweddariad a newidiadau yn 2020/21 oherwydd Covid-19 |
| Bod yn agored<br><br>Ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid sefydliadol<br><br>Ymgysylltu rhanddeiliaid yn effeithiol, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaeth unigol | • Cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan y Cyngor.<br>• Darperir cofnod o benderfyniadau a dogfennau ategol.<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sy'n darparu crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir cymeradwyaeth iddynt a'r rhesymeg dros wneud y penderfyniad hwnnw, er mwyn dangos y rhesymeg dros y penderfyniadau a'r dystiolaeth.<br>• Mae Blaen Raglen Waith gyfunol ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini ar gael i'r cyhoedd ac mae'n cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.<br>• Mae amserlenni clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.<br>• Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith, y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a'r Cyngor yn cael eu gweddarlledu.<br>• Cyhoeddir adroddiadau blynyddol gan y Pwyllgorau Sgriwtini, y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>• Cyhoeddir y Ddogfen Gyflawni Flynyddol sy'n amlinellu pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw drwy gydol y flwyddyn yn erbyn Cynllun y Cyngor | • Cafodd yr holl gyfarfodydd Pwyllgor cyhoeddus a drefnwyd ar gyfer diwedd mis Mawrth hyd at yr 20fed o Fai eu canslo oherwydd y pandemig Covid-19.<br>• Cynhaliwyd cyfarfod o bell cyntaf y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar yr 20fed o Fai gan ddefnyddio Microsoft Teams ac roedd recordiad o'r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor.<br>• Cynhaliwyd cyfarfodydd rhithwir o'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor ers mis Mehefin 2020. Recordiwyd y cyfarfodydd a'u llwytho ar wefan y Cyngor.<br>• Cyhoeddwyd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Cyhoeddwyd Adroddiad Cyflawni Blynyddol<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2020<br>• Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor<br>• Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini |

# Atodiad 1



| | | |
|---|---|---|
| | • Cyhoeddir yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol i ddangos cynydd yn erbyn Cynllun y Cyngor (Dogfen Gyflawni Flynyddol) ar gyfer y flwyddyn flaenorol.<br>• Cyhoeddir adroddiad monitro cerdyn sgorio chwarterol i ddangos cynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn gysylltiedig â Chynllun y Cyngor ac amcanion y Gwasanaethau.<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Wefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol i gyrraedd nifer cynyddol o drigolion a rhanddeiliaid.<br>• Mae arferion Rhyddid Gwybodaeth ar waith er mwyn cyhoeddi ymatebion i geisiadau.<br>• Daeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn gorff statudol o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<br>• Cynhelir Arolwg Staff bob 3 blynedd a defnyddir y canlyniadau i lywio gwahanol agendâu ar draws y cyngor.<br>• Aelodau o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br>• Aelodau o fwrdd GwE<br>• Partneriaid gydag Awdurdodau Lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd ar Gydweithredfa Ranbarthol Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru<br>• Cynghorau Gogledd Cymru – Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng<br>• Defnyddir y Model Ymgysylltu Cymunedol i wella'r ymagwedd gorfforaethol ar gyfer ymgysylltu cymunedol. Mae'r model hwn yn hanfodol er mwyn nodi'r cymunedau a'r grwpiau hynny fydd â diddordeb mewn derbyn cyfrifoldebau am ddarparu ar gyfer anghenion lleol yn eu cymunedau. | • Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2019/20<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2020/21<br>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd<br>• Ni chyhoeddwyd y Cerdyn Sgorio Corfforaethol hyd nes y trafodwyd yr Adroddiad Ch2 yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd. Roedd hyn oherwydd ailgyfeirio adnoddau i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig Covid-19.<br>• Cymeradwywyd y Protocol Siarad Cyhoeddus ar gyfer Sgriwtini gan y Cyngor ar 8 Medi 2020. Cafodd ei ddiwygio i gydymffurfio â Rheoliadau Coronafeirws mewn perthynas â chyfarfodydd o bell.<br>• Adroddiad Blynyddol ar Bryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori yn darparu dull ar draws y Cyngor ar gyfer ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid sydd yn lleihau dyblygu, yn sicrhau dull ar y cyd ar gyfer ymgysylltu ac yn gwella ein gwybodaeth seiliedig ar ardaloedd fel Cyngor.<br>• Mae'r bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes yn cynorthwyo'r Cyngor i gyfrannu at ei thema o *'ragori wrth ganolbwyntio ar gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau'* (6 Thema Allweddol) ac mae'n gyfrifol am bob agwedd o Wasanaeth Cwsmer ac mae'n cael ei ddefnyddio i fonitro a gwella'r profiad cwsmer i'n preswylwyr.<br>• Cynhelir ymarferion siopwr cudd i archwilio cydymffurfiaeth y Cyngor â'r Safonau Iaith Gymraeg a'r Siarter Gofal Cwsmer.<br>• Mae cyfarfodydd y Cyngor Llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu gweddarlledu a gellir edrych arnynt ar-lein am hyd at 6 mis yn dilyn y cyfarfodydd.<br>• Mae croeso i ddinasyddion fynychu cyfarfodydd cyhoeddus a threfnu i siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Sgriwtini a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.<br>• Mae gweithdrefn Gwynion Gorfforaethol ar waith a chyhoeddir ystadegau ar y wefan yn chwarterol.<br>• Mae gweithdrefn gwynion ar wahân ar waith ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Gall rhanddeiliaid ymateb i ymgynghoriadau ar y wefan. | |

# Atodiad 1

**Egwyddor C:** Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol

**Rhesymeg:** Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hyrwyddo diben yr awdurdod, cyfrannu at y manteision a'r canlyniadau a fwriedir, ac aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn gan bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid sefydliadol, yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso gofynion sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Wedi ymrwymo i bartneriaeth, Cyflawni, ac yn canolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r Gymuned,

| Is-egwyddorion | Enghreifftiau o ymrwymiad y Cyngor i gyflawni llywodraethiant da | Diweddariadau a Newidiadau yn 2020/21 oherwydd Covid-19 |
|---|---|---|
| Diffinio Canlyniadau<br><br>Buddiannau economaidd, cymdeithasol ac economaidd cynaliadwy | • Mae Cynllun y Cyngor yn adlewyrchu gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ac mae'n cwmpasu cyfnod yr etholiadau lleol o 5 mlynedd. Mae'n gynllun sy'n disgrifio blaenoriaethau yn eglur ac yn esbonio sut mae'r blaenoriaethau'n adlewyrchu safbwyntiau'r dinasyddion ac mae wedi ei alinio â'r strategaeth ariannol tymor canolig sy'n datblygu'n barhaus.<br>• Adolygir y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn flynyddol, yn unol â'r blaenoriaethau corfforaethol.<br>• Mae pob gwasanaeth yn cynhyrchu Cynllun Cyflawni Gwasanaeth blynyddol sy'n dangos yn glir sut maent yn cyfrannu at gyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae pob cynllun gwasanaeth yn cynnwys mesurau a meini prawf llwyddiant i dystiolaethu sut y bydd gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth. | • Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Dogfen Gyflawni Flynyddol<br>• Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Adroddiad Cynnydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch2<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch4 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro yn chwarterol drwy'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol. Cyflwynir adroddiad ar y Cerdyn Sgorio Corfforaethol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith lle cytunir ar gamau lliniaru i'r Gwasanaethau eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw DPA sy'n tanberfformio.<br>• Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf.<br>• Mae perfformiad a chynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a chyhoeddir gwybodaeth am berfformiad ariannol yn y Datganiad o Gyfrifon.<br>• Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn darparu Adroddiad Blynyddol ac adroddiadau Cynnydd drwy gydol y flwyddyn.<br>• Datganiad Llywodraethiant Blynyddol<br>• Adroddiadau Refeniw a Chyfalaf Chwarterol<br>• Mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu Adroddiad Blynyddol<br>• Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg | |

# Atodiad 1

| **Egwyddor D:** Pennu’r ymyriadau sy’n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni’r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu | | |
|---|---|---|
| | | |
| **Rhesymeg:** Mae llywodraeth leol yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae pennu'r cymysgedd cywir o'r camau gweithredu hyn yn ddewis strategol hollbwysig y mae'n rhaid i lywodraeth leol ei wneud i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir. Maent angen mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn i sicrhau y gellir cyflawni eu canlyniadau diffiniedig mewn ffordd sy'n darparu'r fasnach orau rhwng y gwahanol fathau o fewnbynnau adnoddau tra'n parhau i alluogi gweithrediadau effeithiol ac effeithlon. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni yn y ffordd orau posibl. | | |
| **Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig | | |
| Is-egwyddorion | Enghreifftiau o ymrwymiad y Cyngor i gyflawni llywodraethiant da | Diweddariadau a Newidiadau yn 2020/21 oherwydd Covid-19 |
| Penderfynu a chynllunio ymyriadau<br><br>Sicrhau'r cyflawniad gorau posibl o'r canlyniadau a fwriedir | • Mae’r Cyfansoddiad yn nodi’r glir sut mae’r Cyngor yn gweithredu a sut y gwneir penderfyniadau a’r gweithdrefnau y mae angen eu dilyn i sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.<br>• Strwythurau Pwyllgorau’r Cyngor - Cyngor, Pwyllgor Gwaith, Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion, Trwyddedu, Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a’r Pwyllgor Safonau.<br>• Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am y fframwaith polisi a chyllideb. Mae adroddiadau llywodraethiant allweddol yn faterion i’r Cyngor, ac mae’r Cyngor yn cyntuno ar gyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol.<br>• Y Pwyllgor Gwaith yw’r prif gorff gwneud penderfyniadau ac mae’n cynnwys yr arweinydd ac wyth aelod portffolio arall. | • Deddfwriaeth Coronafeirws: swyddogaethau awdurdodau lleol<br>• Roedd y Tîm Rheoli Ymateb i’r Argyfwng yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar weithgareddau yn gysylltiedig â’r Coronafeirws ar Ynys Môn gan gynnwys trafod darparu gwasanaethau allweddol, gweithgareddau newydd, cynllunio gweithlu, cyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac iechyd a diogelwch.<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch2<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch4<br>• Ymateb i’r coronafeirws – gellir gweld gwybodaeth bellach ar ein hymateb yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020 a chyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 23 Ebrill 2021.<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |

Tudalen 25

# Atodiad 1

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethiant yr awdurdod. Mae gan y pwyllgor ddau aelod cyfetholedig sydd yn gyfrwng i ehangu gwybodaeth a phrofiad annibynnol.<br>• Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn darparu sicrwydd ynghylch perfformiad a darparu'r holl wasanaethau. Mae'n sicrhau bod y cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol ac amcanion ei wasanaethau tra'n cefnogi ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.<br>• Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn sicrhau bod buddion dinasyddion yr Ynys yn cael eu hyrwyddo a bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau'r cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n darparu gwerth ychwanegol o weithio gyda phartneriaid.<br>• Ceir adroddiad eglurhaol i gyd-fynd â phob adroddiad pwyllgor sydd yn rhoi crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion y ceisir eu cymeradwyo a'r rhesymeg dros wneud yr argynhelliad, er mwyn dangos y rhesymeg a thystiolaeth dros y penderfyniadau.<br>• Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) a'r Penaethiaid yn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu monitro a'u cyflawni drwy gydol y flwyddyn.<br>• Mae Gwasanaethau yn derbyn Adolygiadau Gwasanaeth bob chwe mis – gan edrych yn benodol ar y gyllideb a gwariant ym mis Mehefin ac ar berfformiad a chanlyniadau rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac aelodau etholedig, o'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol, yn herio perfformiad gwasanaethau yn gadarn yn ystod y sesiynau adolygu gwasanaeth. Yna, cytunir ar gamau gweithredu yn y cyfarfod i fynd i'r afael â phroblemau neu wella perfformiad yn erbyn targedau a osodir er mwyn eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf. | • Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Dogfen Gyflawni Flynyddol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae gan y Cyngor Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad ar waith.<br>• Mae'r rhaglenni a'r prosiectau sydd wedi eu halinio â Chynllun y Cyngor yn cael eu monitro gan y Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant Corfforaethol a'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau.<br>• Mae Rhaglen Ynys Ynni™ Ynys Môn a sefydlwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ymdrech ar y cyd rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector sy'n gweithio mewn partneriaeth, gan roi Ynys Môn ar flaen y gad ym maes ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, a sicrhau buddion economaidd enfawr posib.<br>• Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y diwydiant twristiaeth er mwyn creu strategaeth twristiaeth hirdymor ar gyfer yr Ynys. Mae Bwrdd Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn yn monitro cyflawniadau yn erbyn y Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn. | |

# Atodiad 1

| **Egwyddor E:** Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo | | |
|---|---|---|
| **Rhesymeg:** Mae angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar lywodraeth leol, yn ogystal â phobl sydd â'r sgiliau cywir, cymwysterau priodol a meddylfryd priodol, i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni eu canlyniadau arfaethedig o fewn y cyfnodau penodedig. Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun a sicrhau bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y gallu gweithredol i'r sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei allu yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth aelodau unigol o staff. Atgyfnerthir arweinyddiaeth mewn endidau llywodraeth leol drwy gyfranogiad pobl sydd â llawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu strwythur ac amrywiaeth cymunedau. | | |
| **Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl | | |
| Is-egwyddorion | Enghreifftiau o ymrwymiad y Cyngor i sicrhau llywodraethiant da | Diweddariad a Newidiadau yn 2020/21 oherwydd Covid-19 |
| Datblygu capasiti'r endid<br><br>Datblygu gallu arweinyddiaeth yr endid ac unigolion eraill | • Strategaeth Datblygu Gweithlu a Chynlluniau Datblygu Gweithlu ar gyfer pob Gwasanaeth<br>• Strategaeth Pobl<br>• Gwerthusiad Blynyddol (Adolygiad Datblygu Perfformiad)<br>• Cynllun Cydraddoldeb 2020-24<br>• Sesiynau briffio aelodau<br>• Fforwm Rheolwyr<br>• Gwobrau Staff<br>• Siarter ar gyfer Cefnogi Aelodau CLILC<br>• Rhaglen Datblygu a Hyfforddi Aelodau<br>• Cynllun Hyfforddai<br>• Cynllun Denu Talent<br>• Y Gronfa Ddysgu / E-Ddysgu<br>• Rhaglen Hyfforddi Mewnol | • Diweddariad ar gynnydd y Rhaglen Datblygu a Hyfforddi Aelodau<br>• Diweddarwyd cynlluniau datblygu gweithlu<br>• Diweddarwyd y broses Werthuso flynyddol ac erbyn hyn mae adnodd ar-lein newydd ar gael er mwyn cynnal y gwerthusiad<br>• Canslwyd y Gwobrau Staff ar gyfer y flwyddyn oherwydd y pandemig Covid-19 – cynhaliwyd ddiwethaf yn 2019<br>• Lansiwyd y Cynllun Hyfforddai<br>• Canslwyd Cynllun Denu Talent oherwydd y pandemig |

# Atodiad 1

**Egwyddor F:** Rheoli risgiau a perfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref

**Rhesymeg:** Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y mae'n eu goruchwylio wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cynlluniedig yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risg a mynd i'r afael â hi fel rhan o'r holl weithgareddau gwneud penderfyniadau.
Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, darparu gwasanaethau'n effeithlon, ac atebolrwydd.
Mae hefyd yn hanfodol bod diwylliant a strwythur ar gyfer craffu ar waith fel rhan allweddol o wneud penderfyniadau atebol, llunio polisïau ac adolygu. Mae diwylliant gwaith cadarnhaol sy'n derbyn, yn hyrwyddo ac yn annog her adeiladol yn hanfodol i graffu llwyddiannus a chyflawni'n llwyddiannus. Yn bwysig, nid yw'r diwylliant hwn yn digwydd yn awtomatig, mae'n gofyn am ymrwymiad cyhoeddus mynych gan y rhai sydd mewn awdurdod.

**Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

| Is-egwyddorion | Enghreifftiau o ymrwymiad y Cyngor i sicrhau llywodraethiant da | Diweddariadau a Newidiadau yn 2020/21 oherwydd Covid-19 |
|---|---|---|
| Rheoli Risgiau<br><br>Rheoli Perfformiad<br><br>Rheolaeth Fewnol Gadarn<br><br>Rheoli Data | • Polisi a Fframwaith Rheoli Risg<br>• Meddalwedd rheoli risg 4Risk<br>• Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>• Cynllun y Cyngor<br>• Cynllun Cyflawni Blynyddol<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Hunanasesiad (Mewnol)<br>• Adolygiadau Gwasanaeth – Ariannol a Pherfformiad<br>• Hunanasesiad Archwilio Mewnol yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS)<br>• Adroddiadau Archwilio Mewnol | • Llywodraethu Gwybodaeth – Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch2<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch4<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Dogfen Gyflawni Flynyddol<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |

# Atodiad 1

| | | |
|---|---|---|
| Rheolaeth Ariannol Gyhoeddus Gref | • Adroddiad Blynyddol yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)<br>• Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Polisi Llywodraethu Gwybodaeth<br>• Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol<br>• Diogelwch TGCh<br>• Adroddiadau Refeniw Chwarterol<br>• Adroddiadau Cyfalaf Chwarterol<br>• Datganiad o Gyfrifon<br>• Mae trefniadau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn dilyn arferion proffesiynol ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Llawn.<br>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig<br>• Strategaeth Gaffael<br>• Cadarnhaodd y Dystysgrif Cydymffurfiaeth Blynyddol bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau'n ymwneud ag adroddiadau ariannol, defnyddio adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad. | |

# Atodiad 1

| **Egwyddor G:** Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio | | |
|---|---|---|
| **Rhesymeg:** Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn atebol amdanynt. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud nid yn unig ag adrodd ar y camau a gwblhawyd, ond hefyd â sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r sefydliad gynllunio a chyflawni ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol. | | |
| **Themâu Allweddol Cysylltiedig:** 1) Yn broffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda | | |
| Is-egwyddorion | Examples of the Council's commitment to achieving good governance | 2020/21 Updates and Changes |
| Gweithredu arferion da o ran tryloywder ac adrodd<br><br>Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol | • Mae pob agenda ac adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor<br>• Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio<br>• Cofrestr o ddiddordebau Aelodau<br>• Cofrestr o ddiddordebau Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Adroddiadau Archwilio Mewnol<br>• Sesiynau briffio misol Aelodau<br>• Adroddiadau Archwilio Allanol, gan gynnwys Estyn, Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru<br>• Adroddiadau Arolygiaeth<br>• Adroddiad Sgriwtini Blynyddol<br>• Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol | • Adolygiad y Pwyllgor Safonau o gofrestrau o ddiddordebau Cynghorau Tref a Chymuned<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch2<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch3<br>• Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch4<br>• Ymateb i'r coronafeirws – gellir gweld gwybodaeth bellach ar ein hymateb yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020 a chyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 23 Ebrill 2021.<br>• Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>• Adroddiad Perfformiad Blynyddol<br>• Dogfen Gyflawni Flynyddol |

Tudalen 31

This page is intentionally left blank